GRUFFUDD LLWYD ap DAFYDD ab EINION LLYGLIW (fl. c. 1380-1410), bardd

Enw: Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Llygliw
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Ray Looker

nai i'r bardd Hywel ab Einion Llygliw, a brodor o blwyf Llangadfan ym Mhowys; yn ôl marwnad Rhys Goch Eryri iddo ymddengys ei fod yn un o ddisgynyddion Einion Yrth. Yn Cardiff MS. 18 (190) dywedir ei fod yn ' siawnsler o eglwys Henffordd,' ond ni wyddys am ddim sy'n ategu hyn. Yr oedd yn un o feirdd pwysicaf a galluocaf ei gyfnod, ac yn gyfarwydd â hen lenyddiaeth a chwedloniaeth Cymru. Croesewid ef yn rhai o lysoedd enwocaf ei wlad, ac ymhlith ei gywyddau i uchelwyr ei gyfnod ceir rhai i Owain Glynd r, Syr Dafydd Hanmer, Owain ap Maredudd o'r Neuadd Wen, a Hywel a Meurug Llwyd o Nannau. Canodd gywyddau serch, a chywyddau ac awdlau crefyddol; efe hefyd biau'r cywydd i ddanfon yr haul i annerch Morgannwg, a briodolir hefyd i Iolo Goch ac i Dafydd ap Gwilym (gweler *B.B.C.S.*, i). Cywydd marwnad Rhys Goch Eryri iddo oedd dechrau'r ymryson rhwng y bardd hwnnw a Llywelyn ap y Moel; canmolir Gruffudd hefyd yng nghywydd ateb Llywelyn.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

Llawysgrif Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1

Llawysgrifau Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1, 2, 5

Llawysgrifau Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 204, 244, 312

Llawysgrif Esgair yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 95 (N.L.W.)

Llawysgrif Gwysaney yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 25

NLW MSS 643, 1246, 1247, 1559, 2026, 3077, 4710, 5273, 5283, 6511, 6681, 8330, 13071, 13081, 13167, 13168

H. Lewis, Thomas Roberts, Ifor Williams (goln), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill, 1350–1450* (Bangor 1925), lxxviii, 123, 161

Bulletin of the Board of Celtic Studies, i, 235

Edward Jones, *Musical and poetical relicks of the Welsh bards* (London 1794), 39

Thomas Pennant, *A Tour (Tours) in [North] Wales*, 1883, iii, 297

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

J. Davies, *Antiquæ linguæ Britannicæ et linguæ Latinæ, dictionarium duplex* (1632)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Gruffudd Llwyd

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q13128787

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.